# Cwestiynau Llafar y Cynulliad a gyflwynwyd ar 20 Tachwedd 2001 i'w hateb ar 4 Rhagfyr 2001

**R yn dynodi bod yr Aelod wedi datgan buddiant.**

**W yn dynodi bod y cwestiwn wedi'i gyflwyno yn Gymraeg.**

**(Dangosir rhif gwreiddiol y cwestiwn mewn cromfachau)**

Gofyn i Brif Weinidog Cymru

**1. Elin Jones (Ceredigion);** A wnaiff ddatganiad am y trafodaethau y mae wedi eu cael gyda'i gydweithwyr yn San Steffan ynghylch y Mesur Terfysgaeth newydd. (OAQ14408)

**2. Ieuan Wyn Jones (Ynys Môn);** Pa systemau sydd ar waith i dynnu sylw'r Cynulliad Cenedlaethol at drafodaethau a gynhelir yn San Steffan ar faterion sydd o fewn pwerau deddfwriaethol y Cynulliad Cenedlaethol. (OAQ14435) **R**

**3. Mick Bates (Sir Drefaldwyn);** A wnaiff ddatganiad ar hynt y gwaith o gydlynu polisïau i helpu cymunedau cefn gwlad yng Nghymru. (OAQ14415)

**4. John Griffiths (Dwyrain Casnewydd);** Pa strategaeth a gaiff ei dilyn i wella presenoldeb a dylanwad y Cynulliad yn yr Undeb Ewropeaidd. (OAQ14423)

**5. Eleanor Burnham (Gogledd Cymru);** A wnaiff ddatganiad am y ffordd y mae'n cydlynu polisïau'r Cynulliad i wella seilwaith economaidd a chymdeithasol ardaloedd cefn gwlad Cymru. (OAQ14414)

**6. William Graham (Dwyrain De Cymru);** A wnaiff roi manylion am y cyfarfodydd a gynhaliodd yn ddiweddar gydag Ysgrifennydd Gwladol Cymru ynghylch De Ddwyrain Cymru. (OAQ14431)

**7. Glyn Davies (Canolbarth a Gorllewin Cymru);** Pa drafodaeth y mae wedi ei chael gyda'r Taoiseach ynghylch hybu'r berthynas rhwng Cymru ac Iwerddon. (OAQ14437)

**8. Rhodri Glyn Thomas (Dwyrain Caerfyrddin);** A wnaiff ddatganiad am y rhan a chwaraeodd yng nghyfarfod diwethaf Cadeiryddion Pwyllgorau Ewropeaidd y DU a gynhaliwyd ym Mrwsel. (OAQ14434)

**9. Geraint Davies (Rhondda);** Pa gamau a gymerwyd o ran rhoi iawndal i gyn-lowyr a'u

teuluoedd yn dilyn ei drafodaeth ddiweddar gydag Ysgrifennydd Gwladol Cymru a’r Prif Weinidog. (OAQ14411)

**10. Nicholas Bourne (Canolbarth a Gorllewin Cymru);** Pa drafodaethau y mae wedi’u cael gyda’i gydweithwyr yn San Steffan ynghylch ei gwneud yn fwy clir sut y mae’r pwerau wedi eu rhannu rhwng Llywodraeth Ei Mawrhydi yn San Steffan a Chynulliad Cenedlaethol Cymru. (OAQ14422)

**11. David Davies (Mynwy);** Pa drafodaethau y mae wedi eu cael gydag Ysgrifennydd Gwladol Cymru ynghylch recriwtio heddweision ychwanegol ar gyfer Cymru. (OAQ144221)

**12. Pauline Jarman (Canol De Cymru);** A wnaiff ddatganiad ynghylch sut y mae’n bwriadu hybu perthynas agosach gyda Gogledd Iwerddon, er mwyn gwella delwedd Cymru. (OAQ14409)

**13. Phil Williams (Dwyrain De Cymru);** A wnaiff ddatganiad am y rhan a chwaraeodd mewn rhwydwaith o ranbarthau a chenhedloedd a fu’n ystyried goblygiadau’r Papur Gwyn Ewropeaidd ar Lywodraethu. (OAQ14432)

**14. David Melding (Canol De Cymru);** A wnaiff ddatganiad ar fesurau i hybu partneriaeth y Cynulliad gyda busnesau. (OAQ14420)

**15. Dai Lloyd (Gorllewin De Cymru);** A wnaiff ddatganiad ar sut y mae argymhellion y pwyllgorau yn effeithio ar ddatblygu polisïau yn y Cynulliad Cenedlaethol. (OAQ14436).